



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 20FED HYDREF, 2022

Lleoliad

Rhithiol ar Zoom

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 13/10/22)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Jina Gwyrfai
Elin Hywel
Dewi Jones
Olaf Cai Larsen
Huw Rowlands
Rhys Tudur

Iwan Huws
Dawn Lynne Jones
Gareth Tudor Jones
Gwynfor Owen
Paul John Rowlinson
Sasha Williams

Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Louise Hughes
Beth Lawton
Richard Glyn Roberts

Gwilym Jones
Dewi Owen
Gruffydd Williams

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

AELODAU CYFETHLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---------------------|--|
| [sedd wag] | Eglwys yng Nghymru |
| Colette Owen | Yr Eglwys Gatholig |
| Ruth Roe | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| Manon Williams | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

Heb Bleidlais:

| | |
|-----------------|--------|
| Dylan Huw Jones | NASUWT |
| Roger Vaughan | UCAC |

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

5. ADDYSG CYD-BERTHYNAS A RHYWIOLDEB

7 - 10

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

6. ADRODDIAD CYNNYDD AR Y DAITH DDIWYGIO YN YSGOLION GWYNEDD

11 - 20

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

7. ADRODDIAD GWEITHGOR ADOLYGU FFORDD GWYNEDD

21 - 32

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Menna Jones

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2022/23

33 - 37

I gyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 i'w mabwysiadu.

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 14 GORFFENNAF 2022

Yn bresennol: Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Jina Gwyrfai, Iwan Huws, Elin Hywel, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Dewi Owen, Gwynfor Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson a Rhys Tudur.

Aelodau Cyfetholedig: Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd) a Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

Swyddogion yn bresennol: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2022/23.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Cai Larsen yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2022/23.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Gareth Tudor Jones a Sasha Williams a Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022 fel rhai cywir.

7. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD

Gwahoddwyd y pwyllgor i enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor yn y cyfarfodydd herio perfformiad fesul maes gwaith.

PENDERFYNWYD enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad fesul maes gwaith fel a nodir isod:-

- **Addysg** – Y Cynghorwyr Jina Gwyrfai, Beth Lawton a Gwynfor Owen (unrhyw 2 o'r 3 i fynychu pob cyfarfod)
- **Economi a Chymuned** – Y Cynghorwyr Iwan Huws a Dewi Owen (gyda'r Cynghorydd Jina Gwyrfai wrth gefn)
- **Cefnogaeth Gorfforaethol** – Y Cynghorwyr Huw Rowlands a Paul Rowlinson
- **Cyllid** – Y Cynghorwyr Beth Lawton ac Elin Hywel

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.25 y.b.

CADEIRYDD

Eitem 5

| | |
|--------------------|-----------------------------------|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Teitl yr Adroddiad | Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb |
| Dyddiad y Cyfarfod | 20 Hydref 2022 |
| Swyddog Perthnasol | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| Aelod Cabinet | Cynghorydd Beca Brown |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- i) Pwrpas yr adroddiad hwn ydy ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi am gyfle i edrych yn fanylach ar addysg cyd-berthynas a rhywioldeb sydd yn elfen fandadol o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru o Fedi 2022.
- ii) Mae'r elfen hon yn fandadol ym mhob un o'n hysgolion cynradd ers Medi 2022 ac yn 6 o'n hysgolion uwchradd sydd wedi dewis cyflwyno'r cwricwlwm i Flwyddyn 7 Medi 2022.

2. Cefndir

- i) Mae'n rhaid i gwricwlwm pob un o'r ysgolion uchod gynnwys y ddarpariaeth ddysgu a nodir yn y Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb. [Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb](#)
Mae hwn yn ganllaw statudol i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac Awdurdodau Addysg Lleol. Mae disgwyliad cyfreithiol iddo gael ei ddefnyddio a'i weithredu. Mae gan ysgolion gyfrifoldeb unigol uniongyrchol i weithredu fel cyrff corfforaethol eu hunain.
- ii) Yn y newid hwn mae Addysg Rhyw a Pherthnasau yn newid i 'Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb' (RSE) yn y cwricwlwm newydd. Mae'r newid yn y teitl yn fwriadol - gyda ffocws o'r newydd ar Gyd-berthnasau.
- iii) Mae ymgynghoriad helaeth wedi'i gynnal ar y cynigion a bu Cod drafft Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21 Mai 2021 a 12 Gorffennaf 2021. Ceir manylion am yr ymgynghoriad a'i ganfyddiadau [yma](#).
- iv) Mae'r Cod wedi'i ddatblygu gan ymarferwyr ac mae'n seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth. Cyhoeddwyd y Cod a'r canllawiau statudol ym mis Ionawr 2022 wedi i'r Senedd basio'r Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb ym mis Rhagfyr 2021.
- v) Yn unol â'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r addysg cyd-berthynas a rhywioldeb a ddarperir gan ysgolion fod yn briodol i ddatblygiad dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgolion ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys gwybodaeth ac aeddfedrwydd y dysgwr; ei oedran; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a rhagweld ei ddatblygiad ffisiolegol ac emosiynol. Rhaid i addysg cyd-berthynas a rhywioldeb fod yn briodol i ddatblygiad pob dysgwr, sy'n golygu y gall anghenion dysgwyr o oeddrannau tebyg fod yn wahanol.

- vi) Mae gofynion cyfreithiol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn briodol o ran datblygiad, gan gynnwys yr adnoddau fydd ysgolion yn eu defnyddio i'w weithredu. Mae pynciau fel diogelwch ar-lein, caniatâd ac iechyd rhywiol i gyd wedi'u cynnwys yn y Cod, ond ar gamau datblygu priodol fel nad yw dysgwyr yn cael eu hamlygu i bethau nad ydynt yn briodol i'w datblygiad a'u hoedran.
- vii) Cymerwyd gofal i sicrhau y bydd yr holl ddysgu o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn briodol o ran datblygiad, ac mae'r athrawon, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'i ddatblygu wedi sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cod.
- viii) Bydd addysg am gyd-berthnasau yn natblygiad cynnar yn canolbwyntio ar adeiladu hunan hyder drwy annog dysgwyr i werthfawrogi eu hunain; adnabod a chyfathrebu eu teimladau a ffurfio cyfeillgarwch.
- ix) Er enghraifft, yn 5 oed, mae plant sydd yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn dysgu am berthnasau gyda rhieni, teulu a ffrindiau - nid perthnasau rhamantus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cwricwlwm newydd. Caiff y cysyniad o 'gydsyniad' cyffredinol ei gyflwyno yn natblygiad cynnar a chaiff y dysgu ei amlinellu yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb – 'ymwybyddiaeth o ofyn am ganiatâd i rannu deunyddiau, er enghraifft teganau. Ymwybyddiaeth o hawl pawb i breifatrwydd, ffiniau personol'
- x) Hyd at ddiwedd yr ysgol gynradd, bydd plant yn dysgu am yr isod, fel sydd wedi'i nodi yn y Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb:
- Datblygu empathi a charedigrwydd drwy ryngweithio cadarnhaol.
 - Hyrwyddo ymwybyddiaeth fod gwahanol fathau o deuluoedd a chydberthnasau - a bod pawb yn unigryw.
 - Dysgu sut mae bodau dynol yn newid wrth iddynt dyfu.
 - Cydnabod pwysigrwydd edrych ar eich ôl eich hun a hylendid personol.
 - Dysgu'r geiriau iawn am bob rhan o'r corff.
 - Gwybod manteision gofyn am help ac wrth bwy i ofyn am help.
 - Sylweddoli fod gan bawb hawl i breifatrwydd a deall y syniad cyffredinol o gydsyniad yn eu hymwneud dyddiol ag eraill.
 - Gallu rhyngweithio ag eraill mewn ffordd sy'n deg ac yn barchus i bawb.
- xi) Mae gan rieni rôl ganolog i'w chwarae wrth gefnogi eu plant. Mae rôl hanfodol i ysgolion hefyd - yn enwedig mewn byd lle mae cymaint o wybodaeth anghywir a charmarweiniol a deunydd niweidiol i'w cael ar-lein. Mae Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn chwarae rôl bwysig i ddiogelu a gwarchod holl ddysgwyr Cymru.

3. Cyd-destun Cyfreithiol

- i) Yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mae'r gofyn cyflwyno Cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn ddyletswydd Statudol sydd yn disgyn ar ysgolion gan gychwyn 1af o Fedi 2022 wrth i'r darpariaethau ddod i rym. Mae'r Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn cynrychioli arweiniad statudol i ysgolion ynglŷn â gweithredu y Cwricwlwm fel y nodir yn rhan 1 o'r adroddiad yma. ~~Yn eich swyddogaeth~~ Fel Awdurdod Addysg Lleol un o'n prif gyfrifoldebau yw sicrhau bod ysgolion Gwynedd yn gweithredu yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol.

4. Ysgolion Gwynedd

- i) O ystyried mai dim ond ym Medi 2022 y daeth Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn elfen fandadol o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae hi'n gymamserol i allu craffu darpariaeth ein hysgolion yn y maes yma, ynghyd â'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.
- ii) Yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, bydd ysgolion Gwynedd yn gweithredu'r cod ACR gan lynu at y llinynnau perthnasol a'r cwbl yn ddatblygiadol briodol.
- iii) Wrth ddatblygu Cwricwlwm i Gymru cefnogir ysgolion Gwynedd gan GwE. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE wedi cefnogi ein holl ysgolion i ddilyn y cod ACR. Mae GwE hefyd wedi bod yn cydweithio gyda'r rhwydwaith Ysgolion Iach er mwyn datblygu cynnig o ddysgu proffesiynol yn y maes – sydd ar y gweill ar hyn o bryd dan arweiniad ysgolion Iach Gwynedd yng Ngwynedd.
- iv) Mae ysgolion hefyd yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru wrth ymateb i ymholiadau am y cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- v) O sicrhau cyfnod digonol i'n hysgolion i weithredu'r gofynion newydd (h.y. ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon), byddai modd i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi roi sylw i'r canlynol wrth ystyried yr angen i graffu gweithrediad ein hysgolion ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i'r dyfodol:
 - Beth yw darpariaeth ysgolion Gwynedd ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?
 - Pa adnoddau a ddefnyddir gan ysgolion Gwynedd i ddiwallu gofynion y cod Addysg Rhyw a Chydberthynas?
 - Pa rôl y mae Llywodraethwyr ysgolion Gwynedd wedi ei chwarae yng nghyd-destun darparu'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Chydberthynas?
 - Sut mae ysgolion Gwynedd wedi cynnwys rhieni a gwarchodwyr fel rhanddeiliaid allweddol?

- I ba raddau mae'r gefnogaeth a roddir i ysgolion gan GwE a'r Awdurdod Addysg ym maes Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb yn briodol?

5. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr adroddiad hwn am Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb.

Eitem 6

| | |
|-----------------------|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Dyddiad | 20/10/2022 |
| Teitl yr Eitem | Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio yn Ysgolion Gwynedd |
| Swyddogion | Geraint Evans ac Ellen Arfona Williams |
| Aelod Cabinet | Cyng. Beca Brown |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Cyflwyno adroddiad cynnydd ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar baratodau ysgolion Gwynedd i waith Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r adroddiad ynghlwm – Atodiad 1 – yn ddilyniant i'r adroddiad cynnydd blaenorol yn 2021 a oedd yn ystyried ymateb ysgolion Gwynedd i waith Cwricwlwm i Gymru yn sgil yr agenda adnewyddu a diwygio yn ystod pandemig parhaus Covid-19. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion arni ar hyn o bryd wrth iddynt barhau i baratoi at Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE wrth iddynt gefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2022.

2. ADRODDIAD CYNNYDD AR Y DAITH DDIWYGIO UYN YSGOLION GWYNEDD

Gweler Atodiad 1.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r aelodau ystyried a derbyn cynnwys yr adroddiad.



Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio yn YSGOLION GWYNEDD



CYNNWYS

- BETH YW GOFYNION Y CWRICWLWM NEWYDD?
- PWRPAS YR ADRODDIAD
- BLAENORIAETHAU GWYNEDD A NODWYD
- PA MOR BAROD YW YSGOLION GWYNEDD I GYFLWYNO'R CWRICWLWM NEWYDD A SUT YDYM NI'N MESUR EFFAITH A LLWYDDIANT Y CWRICWLWM NEWYDD
- CRYNODEB O GYMORTH GwE I YSGOLION A DYSGWYR
- ADNABOD CYFLAWNIADAU A MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH

BETH YW GOFYNION Y CWRICWLWM NEWYDD?

Ers 2015 a chyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus, sef adolygiad annibynnol gan yr Athro Graham Donaldson yn cynnig 68 argymhelliad ar wella addysg yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar gylich newid sylweddol i wireddu Cwricwlwm newydd i Gymru. Wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru, mae'r pedwar diben:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Bydd y Cwricwlwm i Gymru newydd yn cynnwys Chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh): Y Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar Hwb yn datgan:

'Cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam rydyn ni'n ei addysgu.'

Yn unol â'r diffiniad ehangach hwn o'r cwricwlwm, ac yn rhan o'u paratodau, mae pob ysgol wedi bod yn cynnal gweithgareddau tu hwnt i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm. Cefnogwyd ysgolion a lleoliadau Gwynedd i fynd i'r afael â'r daith ddiwygio sylweddol hon ers 2017, yn unol â strategaeth Cwricwlwm i Gymru y rhanbarth. Mae enghreifftiau o weithgareddau fel hyn yn cynnwys datblygu addysgeg effeithiol, ystyried asesu pwrpasol gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu, datblygu adolygiad gan gymheiriaid ac arwain newid yn unol â gwaith ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Ar ddiwedd mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau a'r wybodaeth newydd ar wella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ysgolion, UCD, Awdurdodau Lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, ac yn amlinellu'r disgwyliadau ar bob un wrth gyfrannu at welliant cynaliadwy mewn ysgolion. Bwriad y fframwaith yw gyrru'r ymddygiadau a'r arferion sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu newydd.

PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn ddilyniant i'r adroddiad cynnydd blaenorol yn 2021 a oedd yn ystyried ymateb ysgolion Gwynedd i waith Cwricwlwm i Gymru yn sgil yr agenda adnewyddu a diwygio yn ystod pandemig parhaus Covid-19. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion ac UCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt barhau i baratoi at y



Tud. 13



Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE wrth iddynt gefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2022.

Cytunwyd ar yr agweddau yn y rhestr a ganlyn gyda Llywodraeth Cymru a'r rhanbarthau/partneriaethau fel y prosesau sydd angen i ysgolion a lleoliadau addysg eu cwblhau er mwyn bod yn barod i wireddu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022. Mae'r agweddau hyn yn cyd-fynd yn union â'r camau a amlinellir yn y ddogfen 'Y Daith i weithredu'r Cwricwlwm'. Mae pob rhanbarth/partneriaeth wedi cyfrannu at y darlun cenedlaethol cyffredinol a rannwyd â'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg. Cofnodwyd cynnydd ar gyfer:

- Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben.
- Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.
- Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol.
- Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol.
- Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.
- Dylunio, cynllunio a pheilotu'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig.

Yn ystod Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf 2022, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE wedi ymweld ag ysgolion ac UCD i ganolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i gyd-lunio trosolwg a chofnodi'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth baratoi am y cwricwlwm newydd.

BLAENORIAETHAU GWYNEDD A NODWYD

Mae'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod Tymor yr Haf, fel y crybwyllwyd yn flaenorol ym mhwrpas yr adroddiad hwn, hefyd wedi adnabod y blaenoriaethau hyn i GwE:

1. Sicrhau y bydd pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm i fodloni gofynion mandadol a statudol mewn lleoliadau Meithrin hyd at Flwyddyn 6, a'r ysgolion a'r lleoliadau uwchradd hynny sydd wedi dewis ei gyflwyno ym mis Medi 2022.

Cefnogir hyn trwy:

- Hwyluso a chysoni gwaith o fewn y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol, cynghreiriau a chlystyrau i rannu arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy fodelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad;
 - Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd drwy drafodaeth broffesiynol bwrpasol;
 - Datblygu amrywiaeth o weithdrefnau asesu effeithiol i gynnwys asesu ar gyfer dysgu i sicrhau cynnydd yn y dysgu i bob dysgwr;
 - Cydweithio gydag ysgolion a lleoliadau i ddatblygu prosesau cadarn i werthuso'r Cwricwlwm i Gymru yn unol â mesurau hollataidd o'r pedwar diben;
 - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
 - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant ar gyfer dysgu proffesiynol effeithiol gan roi ystyriaeth i'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol sydd ar y gweill ac a gyhoeddir fis Medi gan Lywodraeth Cymru;
2. Gweithredu prosesau sy'n rhoi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdod Lleol Gwynedd i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi a'u herio'n briodol er mwyn gwella, yn unol â'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.
 3. Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid i gryfhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant. Dylai hyn gynnwys pwyslais ar werthuso Cwricwlwm i Gymru.
 4. Parhau i gefnogi pob lleoliad uwchradd i baratoi i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynnyddoedd 7 a 8 ym mis



Medi 2023.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn llywio'r cynlluniau busnes rhanbarthol a rhaglen waith GwE ar gyfer Tymor yr Hydref 2022 ymlaen.

PA MOR BAROD YW YSGOLION GWYNEDD I GYFLWYNO'R CWRICWLWM NEWYDD A SUT YDYM NI'N MESUR EFFAITH A LLWYDDIANT Y CWRICWLWM NEWYDD

Ers mis Mawrth 2020, yn ddi-os, mae Covid-19 wedi effeithio ar allu a chynhwysedd ysgolion i fynd i'r afael â'r daith ddiwygio. Wrth i ysgolion roi blaenoriaeth i ymateb i'r pandemig, amharwyd ar y rhan fwyaf o'u hamserlenni a'u cynlluniau gwreiddiol i baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Mae Covid-19 yn parhau i fod yn her wrth i achosion godi a gostwng ac arweinwyr yn delio gydag absenoldebau staff a phrinder athrawon llanw.

Ym mis Medi 2022, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru ym mhob lleoliad cynradd o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 6. Rhoddwyd y dewis i ysgolion a lleoliadau sydd yn addysgu Blwyddyn 7 ddewis dechrau cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2022. Mae chwe ysgol uwchradd yng Ngwynedd wedi dewis cyflwyno ym mis Medi 2022. Bydd yr wyth lleoliad uwchradd arall yn mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynedd 7 a 8 ym mis Medi 2023.

Cofnodwyd y cynnydd gan ysgolion a lleoliadau wrth baratoi i wireddu'r cwricwlwm ar lefel ysgol a lleoliad unigol a'i gasglu yn y tabl isod i ddangos trosolwg rhanbarthol a throsolwg Gwynedd.

| CRYNODEB GwE | HOLL YSGOLION GwE | YSGOLION GWYNEDD | |
|--|-------------------|--------------------------|--------------------------|
| | | Cynradd ac Arbennig [81] | Lleoliadau Uwchradd [14] |
| Nifer yr ysgolion | Ar drac | Ar drac | Ar drac |
| 1. Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol/ lleoliad a sut all y rhain gyfrannu at y pedwar diben. | 99.4% | 100% | 100% |
| 2. Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm. | 98.9% | 100% | 93% |
| 3. Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol ysgol. | 98.6% | 100% | 86% |
| 4. Adolygu modelau dylunio cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd ar gyfer eu hysgol/lleoliad penodol. | 96.9% | 98% | 79% |
| 5. Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn eu cwricwlwm/cyd-destun lleol. | 93.9% | 96% | 64% |
| 6. Dylunio, cynllunio a threialu eu model cwricwlwm arfaethedig, gan werthuso dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau tymor canolig. | 93.3% | 89% | 79% |

● Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben

Mae bron pob ysgol wedi ymgynghori mewn ffordd ystyrlon a chadarn gyda'u rhanddeiliaid lleol gan gynnwys disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau'r gymdeithas leol. Yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae ysgolion wedi cyd-lunio'r ffactorau sy'n gwneud eu hysgol yn unigryw ac mae'r ffactorau hyn wedi siapio gwaith dylunio cwricwlwm yr ysgol. Mae llawer o ysgolion wedi datblygu ystod o ddulliau ymgysylltu i gasglu'r wybodaeth hon, yn aml drwy holiaduron neu fforymau rhieni. O ganlyniad, mae dyluniad cwricwlwm cychwynnol bron pob ysgol yn dangos ei bod



Tud. 15



yn ymateb i'w ffactorau lleol unigryw.

Mae bron pob ysgol wedi cynnwys dysgwyr mewn trafodaethau ar y pedwar diben i ddeall beth mae'r rhain yn ei olygu i'r ysgol ac ystyried iaith sy'n ddealladwy i'r plant. Mae llawer o ysgolion cynradd wedi creu cymeriadau fel y gall disgyblion gyfeirio atynt ac uniaethu â'r agweddau o fewn y dibenion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn arddangos y pedwar diben yn weledol yn eu dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, ac mae bron i bob athro yn adnabod cyfleoedd i'r pedwar diben yn eu gwaith cynllunio ac wedi'u plethu wrth ddyllunio'r cwricwlwm ar lefel addas i blant ddeall. Drwy'r holl waith uchod i ddod i ddeall y pedwar diben, mae cyswllt clir rhwng ffactorau unigryw yr ysgol a dyheadau'r rhanddeiliaid.

Mae llawer o ysgolion uwchradd Gwynedd wedi datblygu partneriaeth waith gref â'r clwstwr o ysgolion cynradd lleol. Bu hyn yn allweddol wrth ystyried datblygiadau lleol Cwricwlwm i Gymru ar draws y continwmm dysgu 3 i 16.

Yn ysbryd y Cwricwlwm newydd, darperir cyfleoedd i ddysgwyr chwarae, dysgu a datblygu sgiliau perthnasol yn yr awyr agored ac yn eu hardal leol. Mae gan bob ysgol yng Ngwynedd bellach ddealltwriaeth gyffredin o'r egwyddor hon ac wedi cynllunio profiadau dysgu addas i'w dysgwyr gyda hyn yn cael y prif sylw. Gwelwyd llawer o ysgolion cynradd eisoes yn ymestyn eu darpariaeth awyr agored bresennol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i weddill eu disgyblion. Maent wedi plethu'r profiadau awyr agored hyn yn eu dyluniad cwricwlwm newydd er enghraifft, gwelwyd un ysgol yn creu 'gym' tu allan i annog ffitrwydd a chadw'n ffit amser chwarae, ac un arall yn cydweithio ag asiantaethau allanol a'r arbenigwyr 'Gwyrdd Ni' ac 'Adfywio Cymru' i sefydlu gardd gymunedol. Mae un ysgol uwchradd wedi creu cysylltiadau â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn ogystal â labordai Siemens yn sylfaen i'w gwaith gyda disgyblion blwyddyn 7. Mae'r prosiect hefyd yn golygu rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am effaith twristiaeth yn yr ardal a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden lleol fel cerdded, dringo a chaiacio ar Lyn Padarn. Gwelwyd ychydig o ysgolion cynradd yn mynd gam ymhellach drwy ddatblygu dosbarthiadau pwrpasol tu allan ar dir yr ysgol; golyga hyn fod yr ysgol yn gallu cael dosbarth cyfan yn gweithio yn rheolaidd ar dasgau mewn ardaloedd ysgogol tu allan.

● Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.

Roedd bron i holl ysgolion Gwynedd yn bresennol ac yn rhan o weithdai GwE ar hyrwyddo newid a rhoi canllawiau ar adolygu a datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn ôl trafodaethau ag arweinwyr ysgolion ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG), mae bron pob ysgol yng Ngwynedd wedi defnyddio'r canllawiau hyn fel man cychwyn i'w prosesau adolygu ac ymgynghori nhw'u hunain.

Y cam cyntaf i bron bob ysgol oedd casglu gwybodaeth gan yr holl rhanddeiliaid ynghylch yn union pa werthoedd ac ymddygiad yr hoffent weld yr ysgol yn eu datblygu, drwy naill ai gyfarfod wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid, neu gan ddefnyddio holiaduron.

Erbyn diwedd tymor yr Haf 2022, roedd pob ysgol naill ai wedi addasu eu gweledigaeth flaenorol neu wedi llunio gweledigaeth newydd ar gyfer lansio'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. Datblygwyd y gweledigaethau hyn drwy ymgynghori'n uniongyrchol â'r holl rhanddeiliaid ac ystyried y cyd-destun a'r dyheadau lleol. Mae'r pedwar diben yn amlwg yn y gweledigaethau ac yn rhoi nod i holl waith yr ysgolion. Mae rhai ysgolion wedi gwahodd artistiaid lleol i weithio gyda'r disgyblion i ddehongli eu syniadau a'u dyheadau. Gyda'r gwaith hwn i ddatblygu gweledigaeth ysgol, cyrhaeddwyd dealltwriaeth gyffredin o ddyheadau'r ysgol ar draws y gymuned ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach wedi hyrwyddo a dathlu eu gweledigaeth newydd gyda balchder, ar wefannau ysgol er enghraifft.

Mae gan bron pob ysgol uwchradd a'u hysgolion cynradd lleol drefn reolaidd o drafod datblygu elfennau cyffredin o fewn eu gweledigaeth ar sail y pedwar diben.

Mae'r ysgolion uwchradd hynny yng Ngwynedd sydd wedi mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, wedi rhannu eu gweledigaeth am y cwricwlwm newydd â dysgwyr Blwyddyn 6 a rhieni yn rhan o'r broses bontio.

● Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol

Sefydlwyd isadeiledd ar draws y rhanbarth gan rwydweithiau lleol a rhanbarthol a hynny er mwyn galluogi arweinwyr ac athrawon ysgol i fynd ati i gynnal trafodaethau proffesiynol am ystyriaethau dylunio'r cwricwlwm. Gwelwyd nifer



Tud. 16



cynyddol o ymarferwyr yn ymwneud â'r rhwydweithiau hyn drwy gydol y flwyddyn, a bellach mae 804 o ymarferwyr yn aelodau ar draws y rhwydweithiau rhanbarthol, mwy na 90 ohonynt o Wynedd.

Mae'r aelodau hefyd yn cynnwys cydweithwyr o GwE, Awdurdodau Lleol a staff CABAN Prifysgol Bangor. Mae'r Athro Graham Donaldson yn parhau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol i gynnig arweiniad a sylwadau ar drafodaethau a chynnig rhagor o bwytiau i'w hystyried er mwyn symud ymlaen.

Mae'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru wedi canolbwyntio ar bob agwedd ar ddylunio'r cwricwlwm sydd wedi cynnwys arbrofi â chynllunio'r cwricwlwm a threialu ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae nifer cynyddol o ysgolion ar draws pob sector wedi rhannu eu harferion ac wedi adnabod egwyddorion y broses a fu'n allweddol i'w lleoliadau, er enghraifft ysgolion uwchradd a chynradd yn cyflwyno eu gwaith ar ddylunio'r cwricwlwm ac ysgolion uwchradd yn cyflwyno eu gwaith ar ddatblygu a chynllunio ar gyfer cynnydd yn y sgiliau trawsgwricwlaidd. Rhannwyd gwaith y rhwydweithiau yn ehangach â phob ysgol drwy wefan GwE a thrafodaethau ag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG). Rhannwyd gwaith y rhwydweithiau hefyd drwy gyfres o weminarau Dysgu Proffesiynol ar-lein ar gyfer Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Canol ac athrawon. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a chlystyrau wedi defnyddio arweiniad y rhwydwaith a'r gweminarau i helpu gyda'u trafodaethau ar ddylunio'r cwricwlwm. Mae'r drafodaeth hon, gyda disgyblion a llywodraethwyr ar brydiau, wedi arwain at berchnogi'r dylunio. Er enghraifft, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i fodelau dysgu gwahanol a gwnaed gwaith ymchwil mewn llawer o ysgolion i sicrhau bod eu polisi iaith yn cael ystyriaeth.

Mae holl ysgolion Gwynedd wedi sicrhau bod hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru wedi'i blethu'n glir yn nyluniad y cwricwlwm. Ers diwedd tymor yr Haf 2022, bu GwE yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn llywio camau nesaf y rhwydweithiau. Yn ôl y sylwadau cychwynol, mae mwy o berchnogaeth ar y cwricwlwm ar draws ymarferwyr y rhwydwaith a dealltwriaeth well o fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae GwE yn gweithio mewn partneriaeth gref gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion yn effeithiol i ddatblygu rôl ymholi yn rhan o ddatblygu cwricwlwm lleol.

Gwnaed gwaith i ystyried elfennau mandadol y cwricwlwm yn ystod tymor yr Haf ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi ystyried yr elfennau hyn wrth ddylunio, gan gymryd gofal i'w plethu er mwyn sicrhau cyd-destunau dilys. Mae bron pob ysgol wedi cwblhau dogfen dylunio cwricwlwm lefel uchel ar ffurf ddrafft gyda'r holl staff yn ei pherchnogi a'r llywodraethwyr wedi'i derbyn, yn barod i'w chyhoeddi ddechrau mis Medi. Mae'r dylunio cwricwlwm lefel uchel hwn yn grynodedb o'r cwricwlwm a gweler gwefannau llawer o ysgolion bellach yn dathlu eu gweledigaeth, cyfeiriad y pedwar diben a'u dulliau arloesol ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog o fis Medi ymlaen.

● Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol.

Mae bron pob ysgol wedi adolygu eu modelau dylunio cwricwlwm yn sgil y gwaith ar osod gweledigaeth a chyfeiriad i'r ysgol. Ar ôl dod i ddeall elfennau dylunio eu cwricwlwm drwy weithdai GwE a'u gwaith ymchwil eu hunain, bu'r rhan fwyaf o ysgolion yn trafod ac yn ystyried gwahanol fodelau cwricwlwm.

Yn rhan o'r gwaith hwn mae ysgolion Gwynedd yn ystyried yn ofalus y strwythurau staffio presennol a'r gallu o fewn yr ysgol i fod yn newid yr amserlen. Gwelodd ysgolion hefyd yr angen i sicrhau bod cysylltiadau cadarn yn cael eu creu ac nad yw'n fater o wthio pynciau at ei gilydd yn ddiangen. Disgwyl y mae ysgolion hefyd am fwy o wybodaeth gan Cymwysterau Cymru a CBAC ar y TGAU diwygiedig cyn gwneud cynlluniau ar gyfer Blynyddoedd 9, 10 ac 11.

Er mwyn dod i ddeall yn well gofynion y cwricwlwm, gwelwyd bron pob ysgol yn mynd drwy'r broses o ddadbacio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Ym mwyafrif yr ysgolion, bu'r holl staff yn rhan o'r broses hon sydd wedi arwain at ddealltwriaeth lawer ddyfnach o'r gofynion yn ogystal â chyfle i drafod sut i blethu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a nodwyd mewn Maes Dysgu a Phrofiad mewn cyd-destunau dilys ac ystyrlon. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cyfagos i ddadbacio'r Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig o fewn y cwricwlwm, ac wedi rhannu arbenigedd a gwybodaeth bynciol gan ddefnyddio amrywiaeth o dulliau i greu perchnogaeth a thimau cydweithredol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, er enghraifft, rhannu dogfennau ar-lein a safleoedd Google.



Tud. 17



● Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.

Mae bron pob ysgol wedi blaenoriaethu amser i ganolbwyntio ar addysgeg, er enghraifft, cyfarfodydd staff, cyfarfodydd clwstwr a dyddiau hyfforddi staff. Mae bron pob ysgol wedi dechrau treialu amrywiol dulliau o gymhwyso'r egwyddorion addysgegol yn eu cynlluniau cwricwlwm.

Gweler llawer o ysgolion yn parhau hefyd i ddatblygu agweddau ar Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) sydd yn nodwedd gref o'r deuddeg egwyddor addysgegol ac hefyd yn rhan o'r dulliau a rannwyd ac a dreialwyd o fewn y prosiect gyda Shirley Clarke. Mae rhan fwyaf yr ysgolion wedi mabwysiadu'r dulliau dysgu hyn a'u defnyddio i sicrhau y gall disgyblion weithio'n fwy annibynnol a bod y camau nesaf yn y dysgu yn cael eu hadnabod. Bydd y dulliau asesu hyn hefyd yn cryfhau gwybodaeth athrawon o gynnydd pob plentyn.

Ar y cyfan, bwriad y rhan fwyaf o ysgolion Gwynedd yw asesu drwy gychwyn yn y dosbarth efo gwaith disgyblion o ddydd i ddydd. Bydd athrawon yn cadw golwg ar gynnydd ac yn aml yn marcio camau mewn datblygiad. Bwriada ysgolion Gwynedd hefyd barhau i ddefnyddio'r asesiadau cenedlaethol a'r profion safonedig i fonitro safonau darllen a rhifedd. Bwriad y rhan fwyaf o ysgolion hefyd yw asesu a thracio lles plant yn ogystal â'u hagwedd at eu gwaith. Mae rhai ysgolion yn ystyried prynu pecyn masnachol ar gyfer hyn, tra bod eraill eisiau treialu adnodd tracio GwE a llawer yn addasu eu dulliau eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a chlystyrau yn defnyddio'r canllawiau statudol ar Hwb ac enghreifftiau a chanllawiau pellach gan GwE i ystyried pwrpas asesu ac maent wrthi'n cynllunio cyfleoedd i drafod yn broffesiynol yn rheolaidd i athrawon gael ystyried asesu a chynnydd dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, gwelwyd bod datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn agwedd i'w datblygu ymhellach flwyddyn nesaf.

● Dylunio, cynllunio a pheilotu'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig

Bu cydweithio yn elfen graidd i ysgolion er mwyn dylunio a symud ymlaen i gynllunio'r cwricwlwm ac felly mae llawer o enghreifftiau i'w gweld o gydweithio datblygedig a chynnar ar draws ysgolion ac ar draws clystyrau. Mae diwylliant cryf iawn o gydweithio rhwng ysgolion Gwynedd.

Mae'r athrawon sy'n aelodau o rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn cydweithio ar feysydd penodol ac wedi rhannu'u gwaith ar draws rhwydweithiau eraill. Mae ysgolion eraill hefyd wedi elwa o'r gwaith hwn gan fod athrawon ar y rhwydweithiau wedi rhannu gwybodaeth a syniadau yn ystod cyfarfodydd lleol a sesiynau clwstwr. Rhannwyd enghreifftiau â'r rhanbarth o waith effeithiol ar y cyd a ddatblygwyd gan athrawon Gwynedd yn rhwydweithiau lleol Gwynedd.

Mae pob ysgol yng Ngwynedd wedi nodi bod datblygu'r cwricwlwm yn flaenoriaeth allweddol mewn dysgu proffesiynol pellach i staff. Yn y flwyddyn academaidd hon, bydd creu cyfleoedd i ysgolion rannu eu hamrywiol dulliau â'i gilydd yn bwysig.

CRYNODEB O DDYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GwE I YSGOLION, DYSGWYR A RHANDEILIAID

Drwy ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol effeithiol, cefnogwyd ysgolion ar draws pob sector i ddatblygu eu cynlluniau cwricwlwm cychwynnol. Mae gan bob ysgol fynediad at gynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr sy'n cynnwys cynnig cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan, MDaPh a disgyblaeth bynciol lle bo'n briodol. Mae'r cynnig hwn, sydd yn cynnwys addysgeg, dylunio a chynllunio cwricwlwm, asesu a chynnydd, yn cyd-fynd yn glir â chamau y 'Daith i Weithredu'r Cwricwlwm' er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gymwys i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu a dechrau gweithredu o fis Medi 2022.

Drwy ymgynghori'n rheolaidd â fforymau phenaethiaid, gall anghenion yr ysgolion lywio'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol. Mae cyd-lunio yn dal yn gydran graidd y gwaith rhanbarthol er mwyn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ymarferol sydd yn helpu arweinwyr ac athrawon i ddeall yn well sut y gallant ddylunio, mabwysiadu a chyflwyno eu cwricwlwm.



Tud. 18



Yn ystod tymhorau Gwanwyn a Haf 2022, mae cynnig dysgu proffesiynol GwE wedi canolbwyntio ar gyfres o weminarau ar-lein i uwch arweinwyr, arweinwyr canol ac athrawon i gefnogi ysgolion yn eu paratodau tuag at y cwricwlwm newydd. Cafwyd niferoedd da o ysgolion Gwynedd yn y sesiynau rhithiol hyn, gyda llawer o ysgolion yn manteisio ar y cyfle i gyfrannu fel timau arweinyddiaeth llawn ac/neu fel cyfarfod staff cyfan. Recordiwyd y sesiynau hyn a'u rhannu â phob ysgol er mwyn i ymarferwyr eu gwyllo ar yr amser mwyaf priodol. Ar ben hynny, cafodd bob ysgol y cyfle i gael sgysiau dilynol â'u Hymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) ac mae llawer o ysgolion a chlystyrau Gwynedd wedi gofyn am sesiynau penodol i ddatblygu ar y gwaith hwn ymhellach. Mae nifer cynyddol o ysgolion Gwynedd wedi cyfrannu at y sesiynau, yn rhannu arferion cynnar ac enghreifftiau lleol. O ganlyniad, gall ysgolion weld y theori ar waith.

Mae holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) Gwynedd wedi gweithio'n agos gyda'u hysgolion ac wedi cefnogi ysgolion mewn amrywiaeth o ffyrdd i fodloni anghenion ysgolion a chlystyrau. Dyma enghreifftiau o gymorth:

- Yn fuan yn nhymor yr Hydref 2021, bu pob YCG yn cydweithio â chlystyrau neu ysgolion unigol i lunio blaenoriaeth i gyflwyno'r cwricwlwm yn eu cynllun datblygu ysgol. Yn ystod eu hymweliadau, bu'r YCG yn trafod gweithrediad ac effaith y cynllun wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi;
- Mae pob YCG wedi bod yn rhan o arwain yr ysgolion drwy amrywiol weithdai ar arwain newid, cynllunio'r daith at 2022, gweithdy ar weledigaeth ysgol, asesu a chynnydd, a dylunio model cwricwlwm lefel uwch. Rhoddwyd mynediad at recordiadau o'r cyflwyniadau hyn i bob ysgol, yn ogystal ag arlwy gynhwysfawr o adnoddau ar wefan GwE.
- Mae pob YCG wedi cyfarfod â phenaethiaid i rannu'r adnoddau a ddatblygwyd gan GwE i gefnogi ysgolion gyda'r broses o ddylunio'r cwricwlwm a sicrhau bod cyfeiriad strategol i arwain y gwaith cynllunio a chyflwyno;
- Gwelwyd llawer o glystyrau yn elwa o gymorth yr YCG i arwain sesiynau ysgol gyfan yn ystod dyddiau hyfforddiant a sesiynau gwyll, er enghraifft arwain ysgolion drwy ofynion Cwricwlwm i Gymru, deall a dadbacio'r MDaPh a thrafod strategaethau i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm;
- Mae pob YCG hefyd wedi bod yn rhan o gyfarfodydd penaethiaid, sydd wedi cynnwys eitemau cwricwlwm lleol ar eu agenda. Golyga hyn fod penaethiaid yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ar y camau nesaf wrth gyflwyno'r cwricwlwm;
- Darparodd YCG sesiynau penodol i lawer o ysgolion i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddibenion asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru a rhannwyd enghreifftiau o sut mae ysgolion yn datblygu eu dulliau;
- Yn ogystal â'r penaethiaid a'r athrawon mewn ysgolion, mae'r cymorthyddion dysgu ym mron pob ysgol hefyd wedi bod yn rhan o'r gyfarfodydd a'r gweithdai hyn gyda'r YCG. Mae rhai ysgolion hefyd wedi cael hyfforddiant penodol ar y Cwricwlwm i Gymru gan y tîm Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Dysgu. Ers dechrau'r pandemig, mae Cymorthyddion Dysgu wedi cael eu huwch sgilio a'u grymuso i fabwysiadu rolau amlycach yn yr ysgol, er enghraifft, cyfrannu at broses cynllunio'r cwricwlwm.
- O safbwynt cymorth i lywodraethwyr, mae GwE wedi cynnal sesiynau penodol Cwricwlwm i Gymru i lywodraethwyr yn 2021 a 2022 gyda mwy na 100 o lywodraethwyr yn bresennol. Cafwyd adborth calonogol iawn i'r sesiynau hyn a'r effaith yw bod llywodraethwyr bellach mewn sefyllfa llawer gwell i ddeall y cwricwlwm newydd, deall beth mae'r ysgolion yn ei wneud a pham ac, yn bwysig, bod yn barod i gwestiynu a chefnogi'r ysgol. Ym mron pob ysgol, mae'r llywodraethwyr wedi cyfrannu at y broses o siapio'r weledigaeth a chwarae rhan bwysig o ran dylunio cwricwlwm lleol. Bu YCG hefyd yn cynnig cymorth i lywodraethwyr ysgolion unigol ar ddatblygiadau'r cwricwlwm.
- Mae YCG wedi darparu cymorth penodol ar agweddau ar ddysgu ac addysgu yn cynnwys edrych eto ar y deuddeg egwyddor addysgegol;
- Erbyn diwedd tymor yr Haf, yn sgil cyfraniad yr YCG, gan gynnwys gweithdai a modelau GwE, mae bron pob ysgol wedi drafftio dyluniad lefel uchel o'u cwricwlwm, ac mae'r rhan fwyaf o gyrff llywodraethu wedi trafod a mabwysiadu'r dyluniad;
- Cyfarfu'r YCG â Phenaethiaid ac aelodau'r Uwch Dimau Arwain ym mhob ysgol i gefnogi gyda gwerthuso gwaith dylunio a chynllunio cwricwlwm yr ysgol ac adnabod unrhyw ofynion o ran cymorth;
- Mae YCG pynciol wedi cefnogi mwyafrif yr ysgolion gyda chynllunio Maes Dysgu a Phrofiad a datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws yr ysgol;
- Mae pob ysgol wedi cael recordiadau ac adnoddau o'r gweminarau dylunio'r cwricwlwm ac asesu;
- Mae YCG wedi cefnogi a hwyluso gwaith clwstwr a chynghrair ble'n briodol;



Tud. 19



- Mae YCG wedi galluogi ysgolion i ddatblygu rôl cymheiriaid o fewn hunan arfarnu a chysoni hyn â'r ffocws ar Cwricwlwm i Gymru ble'n briodol.

MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH

Drwy ymgynghori ag YCG, mae ysgolion Gwynedd ar draws pob sector wedi nodi'r angen am ragor o gymorth yn y meysydd canlynol er mwyn datblygu:

- Datblygu ymhellach dealltwriaeth gyffredin o gynnydd - o fewn yr ysgol a rhwng ysgolion;
- Mireinio a gwella prosesau asesu a systemau tracio asesu i sicrhau cynnydd pob dysgwr.
- Parhau i ddatblygu addysgeg a gwella ansawdd yr agweddau ar ddysgu ac addysgu a nodwyd o fewn ysgolion unigol;
- Cefnogi arweinwyr ymhellach i gynllunio ar gyfer sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar lefel ysgol gyfan strategol;
- Cefnogi arweinwyr canol ymhellach i gynllunio sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol yn y dosbarth;
- Yn unol â disgwyliadau'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd:
 - datblygu trefn effeithiol i arfarnu prosesau cwricwlwm gan gynnwys llais y disgybl a'r rhiant;
 - mireinio cynlluniau cwricwlwm hirdymor;
 - parhau i ddatblygu cydweithio ac adolygu gan gymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (SPP);
- Parhau i ddatblygu dyluniad y cwricwlwm gyda chymorth penodol i arweinwyr ac arweinwyr canol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, y sgiliau cyfannol a'r themâu trawsbynciol;
- Datblygu ymhellach y flaenoriaeth llesiant ysgol gyfan - gan gynnwys datblygu a gwerthuso'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles;
- Cryfhau ymhellach y gwaith pontio gyda phwyslais neilltuol ar Flynyddoedd 6 i 7 drwy gydweithio cryf a thrafodaeth broffesiynol rhwng ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd lleol;
- Darparu cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau uwchradd, ble mae angen, i ddechrau'r Cwricwlwm i Gymru gyda Blynyddoedd 7 a 8 ym mis Medi 2023;
- Parhau i weithio gydag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) i hwyluso trafodaethau clwstwr a chynghrair, rhannu arferion arloesol a datblygol a chefnogi dysgu proffesiynol staff drwy ddyddiau HMS (hyfforddiant).



Tud. 20



Eitem 7

| | |
|----------------------|--|
| PWYLLGOR | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| TEITL | Adroddiad Gweithgor Adolygu Ffordd Gwynedd |
| DYDDIAD | 20 Hydref 2022 |
| AWDUR | Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| AELOD CABINET | Cynghorydd Menna Jones |

1. CEFNDIR

Yn gynharach yn y flwyddyn gwahoddwyd pob Pennaeth Adran i gynnal hunan asesiad Ffordd Gwynedd ar gyfer eu hadran. Gwnaed hyn er mwyn cael trosolwg o sut mae egwyddorion Ffordd Gwynedd yn gwreiddio ac i'n galluogi i ddatblygu cynllun Ffordd Gwynedd fydd yn sicrhau'r gefnogaeth briodol ar gyfer y tair blynedd i ddod.

Sefydlwyd gweithgor oedd yn cynnwys pedwar Aelod Etholedig, y Prif Weithredwr, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ac Ymgynghorwyr Ffordd Gwynedd, i gytuno ar ffurf yr holiadur yn y lle cyntaf ac yna i ddadansoddi'r canlyniadau a chytuno ar y ffordd ymlaen.

Cwblhawyd yr holiaduron gan y penaethiaid ym mis Chwefror / Mawrth gyda'r mwyafrif yn adrodd eu bod yn gwneud hyn drwy ymgynghori gyda'u staff a'u rheolwyr cyn cyflwyno yr ymatebion yn ôl i'r Gweithgor.

Bydd yr adroddiad hon yn cyflwyno casgliadau'r Gweithgor ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd.

2. PRIF NEGSEUON O'R HUNAN-ASESIADAU

I gychwyn, mae aelodau'r Gweithgor yn barod iawn i ganmol yr ymatebion gonest a thrylwyr a dderbyniwyd.

Er bod ymdeimlad i rai Adrannau dan-amcanu eu cynnydd ac i eraill efallai or-amcanu; yn gyffredinol, roedd cred bod yr ymatebion yn rhoi darlun teg o ddatblygiad y Ffordd Gwynedd o weithio yn y Cyngor hyd yma. Roedd yn galonogol nodi bod pob Pennaeth yn gallu adrodd bod gwaith wedi cychwyn a/neu bod cryn gynnydd i'w weld o fewn rhai gwasanaethau tra bo cryn waith pellach i'w gyflawni mewn mannau eraill.

Gwelwyd o'r ymatebion bod cryn cynnydd wedi ei wneud i newid diwylliant ond bod y broses o newid diwylliant a newid y meddylfryd ymysg swyddogion yn anos i'w wireddu mewn rhai gwasanaethau ple bo'r datblygiad yn un araf ac anodd gyda'r angen am waith pellach wedi'i adnabod er mwyn gwreiddio'r newid.

Fe nodwyd bod y dull presennol o gynnal adolygiadau gwasanaeth yn gallu bod yn feichus a'i bod yn anodd rhyddhau capasiti rheolwyr a staff i'w cyflawni ar ben y gwaith dydd i ddydd .

Amlygwyd nifer o themâu cyffredin o'r prif negeseuon hyn ac mae rhain, ynghyd ag argymhellion gweithredu ar gyfer y dyfodol, wedi eu crynhoi isod:

2.1 Newid diwylliant

Mae'n amlwg bod cryn gynnydd wedi'i wneud o ran newid y diwylliant ond bod gwaith pellach angen ei gyflawni mewn amryw dimau ar draws y Cyngor. Cydnabyddir bod y broses o newid diwylliant a newid y meddylfryd yn gallu bod yn arafach ac anoddach mewn rhai amgylchiadau a bydd angen cymryd hynny i ystyriaeth wrth ymgymryd a'r gwaith pellach angenrheidiol gyda'r timau hynny.

e.e. yr Adran Oedolion yn adrodd bod y newid hwn yn cael ei ystyried gan rai fel rhywbeth sy'n cael ei wneud "i" staff, gan fod llawer o'r gwaith yn cael ei gyflawni gan y Tîm trawsnewid.

Argymhellion

- i) Cyflwyno 'Ymddygiadau Ffordd Gwynedd' syml ac chlr sy'n
 - Gosod disgwyliadau yn y 'croeso' (anwytho) ar gychwyn gyrfa/swydd newydd
 - Sail trafodaethau yn y sesiynau Gwerthuso Parhaus
- ii) Cefnogi arweinwyr / rheolwyr i addasu a chymhwyso trefniadau gweithio 'hyblyg' i gadarnhau a chryfhau egwyddorion Ffordd Gwynedd.
- iii) Parhau i sicrhau , wrth gynnal adolygiadau gwasanaeth, bod y staff sydd yn gwneud y gwaith yn rhan o adnabod yr hyn sydd angen ei newid a'r broses o'i newid.

2.2 Hyfforddiant / Gweithdai / Datblygu sgiliau

Nodwyd canmoliaeth i'r hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer rheolwyr ond gan ychwanegu y byddai gweithdai / sesiynau atgoffa byr ychwanegol yn ddefnyddiol er mwyn sbarduno unigolion i ailgydio yn y gwaith, yn arbennig ar ôl bwlch y cyfnod COVID.

Ymhellach, tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau bod unrhyw sesiynau/gweithdai yn cymryd i ystyriaeth y newid i fod yn gweithio yn rhithiol a'r angen i ddatblygu sgiliau i gynnal adolygiadau yn y modd hwnnw ac hefyd i amlygu sut y gellir gweithredu heb fod yn cynnal adolygiadau dwys pob tro.

Awgrymwyd y byddai darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth byrrach ar gyfer staff yn fuddiol gyda'r sesiynau hynny yn cael eu cynnig ar ffurf pecynnau e-ddysgu, fideos byr a.y.b.

Roedd nifer o'r adrannau yn awyddus i'r hyfforddiant sgiliau meddal a ddarperir yn bresennol barhau a'i fod yn cael ei ddarparu ar gyfer mwy o reolwyr a staff i'r dyfodol e.e. Cyfathrebu / Gweithdai DiSC, Hyfforddiant Arwain a Rheoli, Deallusrwydd Emosiynol a.y.b.

Argymhellion

- i) Datblygu sesiwn dilyniant mandadol ar gyfer pob rheolwr ac arweinydd tîm.
- ii) Hysbysebu a datblygu'r cyrsiau sgiliau meddal er mwyn i fwy o swyddogion y Cyngor fanteisio ar y ddarpariaeth.
- iii) Datblygu sesiwn trosolwg byr ar gyfer holl staff y Cyngor gan dargedu rhai timau fel blaenoriaeth ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr hunan-asesiad.
- iv) Cynhyrchu e-fodiwlau byr ar gyfer holl staff a cynhyrchu catalog o enghreifftiau ymarfer da i'w cefnogi.
- v) Cyflwyno a chynnig sesiynau ymarferol i holl staff y Cyngor ar gyfer datblygu sgiliau meddal (tebyg i'r rhai ddefnyddir mewn canolfannau asesu).

2.3 Effaith y cyfnod COVID

Heb os nag oni bai mae'r cyfnod COVID wedi cael effaith ar gynnydd Ffordd Gwynedd gyda sawl Pennaeth yn adrodd bod cynnydd ar gynnal adolygiadau ffurfiol wedi arafu. Er hynny nodwyd nifer o enghreifftiau hefyd ple roedd sefyllfa COVID wedi gwthio'r agenda yn ei blaen ac wedi arwain at newid trefniadau yr oedd nifer yn credu nad oedd yn bosib i'w gyflawni cyn hynny. Cyn y cyfnod COVID mi fyddai'n wir i awgrymu bod rhai gwasanaethau ofn mentro defnyddio dulliau a thechnoleg newydd ond bod y clo a chyfyngiadau'r cyfnod wedi gorfodi'r newidiadau hynny.

Bu i nifer adrodd bod y drefn o gofnodi rhwystrau wedi disgyn yn ystod y cyfnod clo ac hynny'n bennaf gan bod y rhwystrau, yn amlach na pheidio, yn cael eu cofnodi ar fyrddau gwyn yn y swyddfeydd unigol yn y gorffennol. Cydnabyddwyd bod yr enghraifft yma yn arddangos bod gweithio o gartref neu'n rhannol o gartref/yn y swyddfa yn golygu bod angen darparu arweiniad amgen i staff yn y dyfodol yng nghyswllt cofnodi a rhannu materion sy'n eu rhwystro rhag gweithredu'n effeithiol.

Argymhellion

- i) Sicrhau bod y timau yn adnabod a thrafod enghreifftiau o fod wedi symud yr agenda yn ei blaen er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu yr egwyddorion newydd ac nad ydynt yn llithro yn ôl i'r hen ffordd o wneud pethau. Hefyd cymryd y cyfle i drafod yr hyn

ddaru ddim gweithio cystal a thrafod sut gallent fod wedi ei wneud yn wahanol.

- ii) Cyflwyno dull o gofnodi rhwystrau yn electronig i'r Rhwydwaith Rheolwyr.
- iii) Sicrhau bod ein hyfforddiant yn ystyried effeithiau gweithio yn hybrid.

2.4 Dathlu llwyddiannau

Cyflëwyd nad ydi'r Cyngor yn dathlu digon ar lwyddiannau Ffordd Gwynedd nac ychwaith yn rhannu llawer ar brofiadau fel y gellir dysgu gan eraill.

Argymhellion

- i) Ailedrych ar wobrau Gwynedd ar ei Orau i adlewyrchu'r diwylliant gwaith sydd gennym o fewn y Cyngor erbyn hyn.
- ii) Sicrhau bod timau yn rhannu profiadau (llwyddiannau a methiannau) o fewn eu timau ac ar draws eu gwasanaeth gyda golwg i gynnwys eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd timau gwasanaeth.
- iii) Datblygu rhwydwaith Ffordd Gwynedd i rannu a datblygu syniadau a dysgu am yr hyn mae pawb yn ei wneud. Rhydd hyn y cyfle i rannu syniadau, trafod syniadau ar oroesi rhwystrau, rhannu ymarfer da, adnabod anghenion cefnogaeth.
- iv) Datblygu safle presennol Ffordd Gwynedd ar y mewnwyd i hwyluso rhannu enghreifftiau o arfer da a dysgu.

2.5 Dull Ffordd Gwynedd yn feichus ac araf

Roedd ymdeimlad bod dull "Ffordd Gwynedd" o gynnal adolygiad gwasanaeth yn gallu bod, neu yn ymddangos, yn broses feichus ac felly yn anodd rhyddhau y capasiti o fewn timau er mwyn cyflawni. Mae'n wir i ddweud bod cynnal adolygiad traws wasanaeth yn gallu cymryd amser ac adnoddau eang ond mae modd cynnal adolygiadau bychain ar systemau syml lle y gellir ei wneud fel rhan o'r gwaith dydd i ddydd. Maent yn aml yn effeithiol ac yn gallu cael eu gweithredu yn haws.

Argymhellion

- i) Cynnal mwy o adolygiadau bychain ar brosesau/systemau gwaith unigol.
- ii) Addasu hyfforddiant/gweithdai i ledaenu'r neges bod modd gweithredu adolygiad Ffordd Gwynedd mewn amryw ffyrdd (nid yn unig fel adolygiad dwys).

- iii) Timau, sydd eisoes wedi cyflawni adolygiadau llai dwys, i rannu engreifftiau o'r modd yr aethpwyd ati a'r gwelliannau a wireddwyd.

2.6 Diffyg capasiti i gyflawni adolygiadau / cyflwyno gwelliannau

Adroddwyd bod nifer o adolygiadau eisoes yn cael eu gweithredu ar draws y Cyngor ac yn gwneud gwahaniaeth ond gyda'r gydnabyddiaeth bod sgôp i wneud llawer mwy.

Fodd bynnag, daeth yn glir o'r mwyafrif o'r ymatebion bod yr adrannau yn ei chael yn anodd rhyddhau capasiti i gychwyn adolygiadau ac i gyflawni gwelliannau. Gellir rhannu hyn yn ddau – diffyg capasiti rheolwyr i gamu allan i arwain a chefnogi adolygiadau a diffyg capasiti staff i ymateb i rwystrau a.y.b. Mae ganddynt eisoes nifer o flaenoriaethau eraill wedi eu gosod ar ben y gwaith dydd i ddydd e.e. yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol yn adrodd bod rheolwyr a staff yn gweithio oriau ychwanegol yn gyson ac yn ei chael yn anodd rhyddhau amser i bwrpas cynnal adolygiad gwasanaeth.

Argymhellion

- i) Petai gan y timau restrau cynhwysfawr o'u rhwystrau yna gellid defnyddio rhain i fod yn blaenoriaethu, cynorthwyo i adnabod adnodd angenrheidiol ac i reoli disgwyliadau staff (sydd yn disgwyl bod pethau yn newid unwaith eu bod ar y rhestr).
- ii) Ystyried defnydd o adnodd ychwanegol penodol yn y tymor byr er mwyn cyflawni peth o'r gwaith dydd i ddydd gan drwy hynny ryddhau capasiti ar gyfer gyrru gwaith adolygiadau unigol yn eu blaen

2.7 Gweithio'n drawsadrannol neu gyda phartneriaid allanol

Nodwyd mewn amryw ymateb bod rhwystrau mewn ceisio gweithio yn draws-adrannol a gyda partneriaid allanol. Mae'n amlwg nad ydi pob adran/ partner ar yr un dudalen a bod hyn yn llesteirio gallu i symud ymlaen.

Cynigir bod angen ystyried ymhellach os yw'r trefniadau presennol yn ein gyrru i ganolbwyntio'n ormodol ar berfformiad a chyflawniad adrannol h.y. adrannau / rheolwyr yn cael eu gweithio i wella yn gyson ac yn cael eu dal yn atebol am berfformiad felly yn llai parod i gydweithio fel un ar draws y Cyngor.

Argymhellion

- i) Ystyried blaenoriaethu cefnogaeth i adolygiadau traws adrannol.

- ii) Ystyried yr angen i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yrru'r ymdrech i gynnal a chyflawni adolygiadau traws adrannol.

2.8 Gofynion statudol / amodau grantiau

Nodwyd bod gorfod cydymffurfio a gofynion statudol / amodau grantiau weithiau yn ei gwneud yn anodd i weithredu egwyddorion Ffordd Gwynedd e.e. yr Adran Addysg yn adrodd bod amodau grantiau yn eu clymu i ddeilliannau a dulliau cyflwyno penodol a golyga hyn eu bod ar adegau yn cyflwyno gwasanaethau allai fod yn aneffeithiol ac yn dyblygu darpariaethau eraill.

Argymhellion

- i) Ers cynnal yr hunan-asesiad, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei fod yn awyddus i gynnal darn o waith gydag awdurdodau er mwyn ceisio lleihau y baich gweinyddol ar lywodraeth leol. Bydd y pryder a leisiwyd fel rhan o'r hunan-asesiad yn derbyn sylw trwy'r gwaith hwnnw yn y lle cyntaf.

2.9 Technoleg Gwybodaeth

Mae cynnal adolygiad Ffordd Gwynedd yn codi nifer o gyfleon i fod yn defnyddio technoleg ar gyfer goroesi rhwystrau / gweithio yn fwy effeithlon. Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi'i chael yn gynyddol anodd i ymateb yn amserol i gynlluniau gweithredu yn dilyn cynnal adolygiadau ac mae hyn yn creu rhwystredigaeth i swyddogion sydd wedi ymgymryd a'r adolygiadau.

Mae'r sylwadau hyn wedi amlygu yr angen i sicrhau bod digon o adnodd yn cael ei glustnodi ar gyfer cynnal a chadw systemau yn ogystal a datblygu y systemau a nad ydi'r ddwy elfen yn cystadlu am yr un adnodd.

Argymhellion

- i) Y Grŵp Strategol Trawsnewid Digidol i ddadansoddi sefyllfa gefnogol Technoleg Gwybodaeth ac i arwain ar flaenoriaethu yn gorfforaethol gan sicrhau bod trefniadau Ffordd Gwynedd yn cael ystyriaeth flaenllaw.

2.10 Amharodrydd i dderbyn gostyngiad mewn perfformiad tra'n cynnal Adolygiad

Roedd rhai adrannau yn adrodd nad oedd staff / rheolwyr yn teimlo'n gyfforddus i dderbyn gostyngiad mewn perfformiad tra'n cynnal adolygiad a bod hyn yn rwystr i gychwyn neu i gyflawni adolygiad.

Argymhellion

- i) Rheoli disgwyliadau budd-ddeiliaid a sicrhau bod yr holl Aelodau yn ymwybodol ac yn derbyn bod posibilrwydd i lefel perfformiad

gwasanaethau ostwng yn y tymor byr tra bo adolygiad yn cael ei gynnal.

- ii) Ystyried peidio herio perfformiad y gwasanaeth penodol am gyfnod tra bo'r adolygiad yn cael ei gynnal.

2.11 Deall gwir anghenion y Cwsmer

Adroddwyd bod cryn gynnydd wedi ei wneud o fewn rhai gwasanaethau ond bu i nifer hefyd adrodd bod lle i wella yn y cyswllt hwn gan gydnabod yr angen i ymestyn allan i ddeall anghenion rhai sydd ddim ar hyn o bryd yn gwneud defnydd o'n gwasanaethau.

Argymhellion

- i) Sicrhau bod pob adran yn ymgysylltu hefo eu cwsmeriaid yn rheolaidd a chyflwyno yr angen i arddangos bod hynny yn digwydd a'r effaith a gaiff o fewn y trefniadau herio perfformiad.
- ii) Cyflwyno hyfforddiant/ gweithdai byr ar ddadansoddi'r galw (adnabod enghreifftiau o lle mae gwneud hyn wedi arwain at newidiadau a'u rhannu).

2.12 Pwrpas a mesuryddion

Roedd pob Adran yn gallu adrodd bod eu gwasanaethau wedi gwneud cryn gynnydd ar ddatblygu pwrpas a mesuryddion perfformiad ond bod gwaith pellach i sicrhau bod rhai timau unigol angen adolygu pwrpas pan fo sefyllfa yn newid e.e. yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn adrodd eu bod angen ail ymweld a'u pwrpasau gan fod y galw ar y gwasanaeth wedi newid cymaint dros y dwy flynedd diwethaf, hyn yn amlygu yr angen i fod yn ei wneud yn gyson yn hytrach nac fel ymarferiad unwaith ac am byth.

Roedd peth o'r adborth yn adrodd bod yna ymdeimlad o dan yr wyneb bod gosod y pwrpas a datblygu mesuryddion yn parhau i gael ei ystyried gan rhai fel rhywbeth mae'r rheolwyr yn ei wneud a'i angen ydi o. Mae hyn yn arddangos yr angen i wneud gwaith pellach i sicrhau bod staff yn perchnogi'r pwrpas a'r perfformiad ac yn derbyn a chydabod eu swyddogaeth a'u cyfraniad i wella gwasanaeth.

Roedd rhai adrannau yn tynnu sylw at y gofyn ohonynt i gasglu ac adrodd ar fesuryddion cenedlaethol ar ben y mesuryddion perfformiad lleol e.e. yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn nodi ei bod yn heriol gorfod casglu ac adrodd ar fesurau statudol cenedlaethol. Fel ag y nodwyd yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei fod yn awyddus i gynnal darn o waith gydag awdurdodau er mwyn ceisio lleihau y baich gweinyddol ar lywodraeth leol. Bydd y pryder a leisiwyd fel rhan o'r hunan-asesiad yn derbyn sylw trwy'r gwaith hwnnw.

Mater arall amlygodd ei hun yn ystod yr hunan-asesiad oedd y casgliad bod y Cyngor wedi gwireddu cryn gynnydd ar fesur pa mor effeithiol yr ydym yn gweithio ond ddim cymaint o gynnydd ar fesur pa mor effeithlon y cyflawnir y gwaith.

Argymhellion

- i) Cyflwyno hyfforddiant/gweithdai byr ar ddefnyddio mesuryddion i wella (adnabod enghreifftiau go iawn lle mae defnyddio y mesuryddion wedi arwain at welliant a'u rhannu).
- ii) Yr Is Grŵp Data (Bwrdd Trawsnewid Digidol) i ystyried cefnogaeth i sicrhau bod data ar gael yn hawdd ac yn amserol yn hytrach na rhywbeth maent yn gorfod cael eraill i'w i gynhyrchu yn fisol (enghreifftiau da o lle ma hyn wedi dechrau digwydd gan ddefnyddio e.e. Power BI).
- iii) Sicrhau bod adolygu perfformiad yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod tîm gwasanaeth.
- iv) Ail edrych ar ein mesuryddion perfformiad presennol yn rheolaidd a chyflwyno mesuryddion effeithlonrwydd ychwanegol i'r dyfodol.

2.13 Rhwystrau

Casglwyd bod angen sylw pellach i sicrhau bod gwaith yn digwydd er mwyn goroesi rhwystrau adnabyddir. Roedd rhai adrannau yn adrodd bod y gweithrediad sydd ei angen i gael gwared o rwystrau yn disgyn rhwng dwy stôl yn aml gydag eraill yn adrodd nad oes capasiti i weithredu.

Canlyniad hynny yw bod staff yn colli ffydd yn y "ffordd o weithio" gan bod rhwystrau yn araf yn cael eu goroesi neu hyd yn oed ddim yn derbyn sylw.

Argymhellion

- i) Sicrhau bod rhwystrau ar agenda pob cyfarfod tîm gwasanaeth, a'u bod yn cael eu blaenoriaethu gan ddynodi perchennog ar gyfer pob rhwystr unigol tra bo monitro rheolaidd ar y cynnydd.
- ii) Datblygu hyfforddiant byr ar weithredu ar rwystrau.

2.14 Timau yn bod yn greadigol ac yn gweithio yn arloesol

Bu i bob adran allu dyfynnu enghreifftiau o fod wedi gweithio yn greadigol ac arloesol ond gydag ôl-nodyn yn datgan bod angen parhau i ddatblygu hyder staff os am ddisgwyl iddynt barhau i weithio yn y modd hyn e.e. yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn nodi pwysigrwydd parhau i arddangos, trwy reolwyr ac arweinwyr, bod arbrofi a peidio llwyddo pob tro yn dderbyniol.

Argymhellion

- i) Aelodau a rheolwyr i dderbyn bod pethau yn mynd o'i le o bryd i'w gilydd er mwyn creu yr amgylchfyd gwaith sy'n caniatáu mentro ac arbrofi.

2.15 Cefnogaeth o du allan i'r adran

Roedd nifer yn nodi gwerth cael pâr o lygaid ffres i fod yn edrych ar bethau o ogwydd y cwsmer ac i herio y trefniadau gweithredu presennol, boed yn dod gan y Tîm Ffordd Gwynedd neu gan reolwyr a staff o dimau / gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

Argymhellion

- i) Angen marchnata y gefnogaeth sydd ar gael yn well. Gellir gwneud hyn trwy rwydwaith Ffordd Gwynedd yn y Cyngor.
- ii) Cael staff o wasanaethau eraill ddod i mewn i sicrhau bod pethau yn cael eu herio o ogwydd rhywun sydd ddim yn deall y gwasanaeth ac felly yn gallu edrych arno fel ag y byddai'r cwsmer.

2.16 Pethau'n dod i stop pan mae rhywun yn gadael.

Derbyniwyd ambell i sylw yn adrodd bod pethau yn dod i stop pan fo y sawl sydd yn arwain ar waith Ffordd Gwynedd yn gadael swydd. Mae'r sylwadau hyn yn pery pryder gan ei fod yn awgrymu mai unigolyn sy'n cymryd perchnogaeth o adolygiad ac nad yw gweddill y tîm yn teimlo'r berchnogaeth honno.

Argymhellion

- i) Angen cynnwys cyfeiriad ac arweiniad ar hyn yn yr hyfforddiant "dilyniant" ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion tîm.

2.17 Llesiant Staff

Cyflwynwyd rhai sylwadau yng nghyswllt y ffaith bod ffocws naturiol "Ffordd Gwynedd" ar y cwsmer ac ar wella perfformiad ond bod efallai angen sicrhau sylw priodol o fewn y diwylliant hefyd ar lesiant y staff sy'n darparu'r gwasanaethau.

Argymhellion

- i) Bod angen cyflwyno a phwysleisio llesiant staff fel rhan ganolog o'r diwylliant.

3. CASGLIADAU

Mae Cynllun presennol "Ffordd Gwynedd" angen ei adolygu ac mae'r ymarferiad hwn o gynnal hunan-asesiad, yn hynny o beth, yn amserol iawn. Cynigir bod yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hon (gweler crynodeb ohonynt yn Atodiad 1) yn

sail cadarn ar gyfer gwreiddio'r diwylliant, a'r ffordd o weithio, ymhellach o fewn y Cyngor.

Gwerthfawrogir sylwadau aelodau'r Pwyllgor, fel ychwanegiad pellach i'r dystiolaeth a gasglwyd, cyn mynd ati i lunio ac yna cyflwyno drafft terfynol o'r Cynllun Gweithredu diwygiedig i'r Cabinet ystyried ei fabwysiadu maes o law.

ATODIAD 1 - Tabl Argymhellion Gweithgor Adolygu Ffordd Gwynedd

| Argymhelliad | Blaenoriaeth |
|---|--------------|
| Timau Gwasanaeth | |
| Sicrhau bod y canlynol ar agenda pob cyfarfod tîm gwasanaeth: <ul style="list-style-type: none"> • Perfformiad • Rhwystrau • Enghreifftiau newydd o ymarfer da a gwersi a ddysgwyd | |
| Ymgysylltu gyda'u cwsmeriaid yn rheolaidd. | |
| Cynnal mwy o adolygiadau bychain. | |
| Ail edrych ar ein mesurau perfformiad gan ystyried mesurau effeithlonrwydd. | |
| Cynnal sesiwn i adnabod enghreifftiau o ymarfer da yn sgil COVID | |
| | |
| Rheolwyr | |
| Sicrhau bod eu timau gwasanaeth yn gweithredu yr uchod ac yn eu cefnogi i wneud hynny. | |
| Derbyn bod pethau yn mynd o'i le o bryd i'w gilydd er mwyn creu yr amgylchfyd gwaith sy'n caniatáu mentro ac arbrofi. | |
| Sicrhau, wrth gynnal adolygiadau gwasanaeth, bod y staff sydd yn gwneud y gwaith yn rhan o adnabod yr hyn sydd angen ei newid a'r broses o'i newid. | |
| Gwahodd staff o wasanaethau eraill ddod i mewn i sicrhau bod pethau yn cael eu herio o ogwydd rhywun sydd ddim yn deall y gwasanaeth ac felly yn gallu edrych arno o ogwydd y cwsmer. | |
| Adnabod a threfnu anghenion hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer eu timau. | |
| Sicrhau bod enghreifftiau o ymarfer da yn cael eu rhannu ar draws timau ac yn gorfforaethol. | |
| Sicrhau bod ymddygiadau Ffordd Gwynedd yn sail i drafodaethau gwerthuso parhaus. | |
| Sicrhau bod y gweithio traws adrannol yn digwydd yn hytrach na cael ei osgoi am nad yw yn hawdd. | |
| Rheoli disgwyliadau a sicrhau bod aelodau yn ymwybodol bod adolygiadau yn mynd ymlaen ac y disgwylir iddo gael effaith ar berfformiad. | |
| | |
| Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr ac Aelodau | |
| Ystyried blaenoriaethu cefnogaeth i adolygiadau traws adrannol | |
| Derbyn bod adolygiad yn mynd ymlaen ac y disgwylir iddo gael effaith ar y perfformiad. | |
| Derbyn bod pethau yn mynd o'i le o bryd i'w gilydd er mwyn creu yr amgylchfyd gwaith sy'n caniatáu mentro ac arbrofi. | |
| Cytuno i beidio herio perfformiad am gyfnod yn ystod adolygiad. | |
| Ailedrych ar wobrau Gwynedd ar ei Orau i adlewyrchu'r diwylliant gwaith sydd gennym o fewn y Cyngor | |
| Llesiant staff | |
| | |

| Argymhelliad | Blaenoriaeth |
|---|---------------------|
| Grŵp Strategol Trawsnewid Digidol / Is Grŵp Data | |
| Bwrdd Trawsnewid Digidol i ddadansoddi'r sefyllfa gefnogol TG ac i arwain ar flaenoriaethu yn gorfforaethol gan sicrhau bod trefniadau Ffordd Gwynedd yn cael ystyriaeth flaenllaw. | |
| Cyfeirio i'r Is Grŵp Data i ystyried cefnogaeth i sicrhau bod data ar gael yn hawdd ac yn amserol yn hytrach na rhywbeth maent yn gorfod cael eraill i'w i gynhyrchu yn fisol (enghreifftiau da o lle ma hyn wedi dechrau digwydd gan ddefnyddio e.e. Power BI). | |
| | |
| Grŵp Craidd | |
| Datblygu cwrs "dilyniant" a'i wneud yn fandadol i bob rheolwr ac arweinydd tîm. | |
| Datblygu cwrs trosolwg ar gyfer holl staff y Cyngor gan dargedu rhai ac ystyried ei wneud yn fandadol | |
| Sicrhau bod ein hyfforddiant yn ystyried effeithiau gweithio yn hybrid ac yn lledaenu neges bod modd gweithredu Ffordd Gwynedd mewn amryw ffyrdd. | |
| Cynhyrchu hyfforddiant ar sail e-fodiwlau a gweithdai byr ar gyfer holl staff a cynhyrchu catalog o enghreifftiau ymarfer da i'w cefnogi ar gyfer y meysydd isod: <ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'r galw • Defnyddio mesurau i wella • Gweithredu ar rwystrau • Gweithio'n arloesol / creadigol | |
| Hysbysebu a datblygu'r cyrsiau sgiliau meddal. | |
| Cyflwyno/cynnig sesiynau ymarferol tebyg i'r rhai ddefnyddir mewn canolfannau asesu | |
| Cyflwyno 'Ymddygiadau Ffordd Gwynedd' syml ac chllir sy'n gosod disgwyliadau yn y 'croeso' (anwytho) ar gychwyn gyrfa/swydd newydd. | |
| Cefnogi arweinwyr / rheolwyr i addasu a chymhwyso trefniadau gweithio 'hyblyg' i gadarnhau a chryfhau egwyddorion Ffordd Gwynedd. | |
| Cyflwyno dull o gofnodi rhwystrau yn electronig i'r rhwydwaith rheolwyr. | |
| Datblygu rhwydwaith Ffordd Gwynedd. | |
| Datblygu safle Ffordd Gwynedd ar y mewnwyd i rannu enghreifftiau. | |
| Marchnata y gefnogaeth sydd ar gael. | |

Eitem 8

| | |
|----------------------------|--|
| CYFARFOD | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| DYDDIAD | 20 Hydref 2022 |
| TEITL | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 2022/23 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 i'w mabwysiadu. |
| AWDUR | Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth a Iaith |

1. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 14 Gorffennaf 2022 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2022/23. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

2. Bu aelodau yn trafod mewn grwpiau llai o ran eu blaenoriaethau hwy o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw gyda chyfle i aelodau awgrymu eitemau posib eraill. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:

- ❖ *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*
- ❖ *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- ❖ *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- ❖ *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- ❖ *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

3. Yn dilyn adrodd yn ôl o'r grwpiau, aethpwyd ati i flaenoriaethu eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a

flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.

4. Ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad gweler rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosib ar bob achlysur gyda phedair eitem wedi ei raglennu ar gyfer un cyfarfod. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.
5. Yn ystod mis Medi, bu i'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd gael cyfarfodydd gyda Aelodau Cabinet a Penaethiaid yn y meysydd Addysg ac Economi. Rhoddwyd sylw pellach i amseriad craffu rhai eitemau gydag argymhellion y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi eu cynnwys isod:

Egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy (Cynllun Economi Ymweld)

Blaenoriaethwyd yr eitem yma yn y gweithdy a'i raglennu ar gyfer cyfarfod 2 Chwefror 2023. Nodwyd yr angen i ystyried os oedd angen craffu cyn i'r Cabinet gymeradwyo'r egwyddorion yn yr Hydref.

Mi fydd yr egwyddorion twristiaeth gynaliadwy yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 22 Tachwedd 2022. Bu i'r pwyllgor roi mewnbwn ar yr egwyddorion ar [4 Chwefror 2021](#). Er mwyn i graffu ychwanegu gwerth, awgrymir craffu'r 'Cynllun Economi Ymweld' ar 2 Chwefror 2023 yn unol â'r amserlen. Wrth amseru'r craffu yn y modd yma, bydd cyfle i'r Pwyllgor graffu'r rhaglen waith ddrafft o weithredu'r Cynllun Economi Ymweld. Gellir craffu'r bwriad gan wneud awgrymiadau o newid i'r rhaglen waith ddrafft.

Balansau Ysgolion Gwynedd

Mae'r eitem yma wedi ei raglennu ar gyfer cyfarfod 23 Mawrth 2023. Argymhellir y dylid ystyried ail-raglennu'r eitem i'w graffu yn dilyn y flwyddyn ariannol bresennol er mwyn rhoi sylw i wir sefyllfa balansau ysgolion yn hytrach nag rhagamcan o'r sefyllfa. Gellir rhoi sylw i'r mater yma yng ngweithdy blynyddol 2023/24 gyda chraffu yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn opsiwn posib.

Fframwaith Adfywio

Blaenoriaethwyd yr eitem yma yn y gweithdy blynyddol ond ni raglennwyd ar gyfer cyfarfod penodol. Deallir bod yr eitem wedi ei raglennu ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 24 Ionawr 2023. Bydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth i fabwysiadu'r

fframwaith a fydd yn cynnwys 13 o gynlluniau byw yn nodi beth sy'n bwysig a beth sydd am gael ei wneud ym mhob ardal.

Craffwyd cyfeiriad y Fframwaith arfaethedig yng nghyfarfod [8 Chwefror 2022](#). O ystyried y rhaglen waith ar gyfer 2022/23, argymhellir i'r Pwyllgor roi ystyriaeth i graffu'r eitem yn 2023/24 yn hytrach na'r flwyddyn bresennol. Byddai'n galluogi'r Pwyllgor i roi sylw teilwng i'r materion ar y rhaglen waith ac i graffu'r cynnydd pan yn amserol. Gellid rhoi sylw i amseriad craffu'r eitem yma yng ngweithdy blynyddol 2023/24.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Yn yr un modd, blaenoriaethwyd yr eitem yma yn y gweithdy blynyddol ond ni raglennwyd ar gyfer cyfarfod penodol. Mae aelodau'r Pwyllgor yn derbyn diweddariadau chwarterol o waith y Bwrdd, ac mae dealltwriaeth ar draws awdurdodau'r Gogledd a'r Bwrdd Uchelgais bod angen craffu mewn pwyllgor ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Pe byddai aelodau'r Pwyllgor yn penderfynu ail-raglennu'r eitem 'Balansau Ysgolion Gwynedd', byddai ychwanegu'r eitem yma i gyfarfod 23 Mawrth 2023 yn opsiwn.

6. Dau fater ychwanegol a amlygwyd gan nifer o aelodau fel materion i'w craffu yn ystod y gweithdy blynyddol i'r hyn a nodir ar y flaenraglen ddrafft oedd 'Categoriadau Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg' a 'Cynnydd Sirol mewn niferoedd i Ysgolion Arbennig'.
7. Mae'n deg dweud bod gwahaniaeth barn yn y gweithdy blynyddol o ran blaenoriaethu a gosod yr eitem 'Categoriadau Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg' ar y flaenraglen, neu aros nes bod sesiwn gwybodaeth a drefnwyd eisoes ar gyfer aelodau wedi ei gynnal cyn dod i gasgliad o ran ei flaenoriaethu. Bellach, cynhaliwyd y sesiwn hyfforddiant a chyflwyno gwybodaeth i'r Cynghorwyr, gydag esboniad wedi ei gynnig ynghylch peidio craffu y categorïdd newydd gan nad oedd newid sylweddol o'r categorïau blaenorol. Argymhellir y byddai'n synhwyrol ystyried craffu gwybodaeth graidd a rhaglenni i hybu'r Gymraeg ar ôl iddynt gael eu datblygu, gan ystyried hyn eto yng ngweithdy blynyddol 2023/24.
8. O ran 'Cynnydd Sirol mewn niferoedd i Ysgolion Arbennig', daethpwyd i'r casgliad y dylid gofyn i'r Adran Addysg ddarparu gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor yn y lle cyntaf o sefyllfa ysgolion arbennig yn ogystal â gwybodaeth ynghylch darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif. Mae'r wybodaeth yma wedi ei rannu gydag aelodau'r pwyllgor bellach.

9. Cydnabyddir pryderon aelodau'r pwyllgor o ran llwyth gwaith y Pwyllgor a'r gofyn i flaenoriaethu materion. Bu trafodaeth am y llwyth gwaith yng nghyfarfod y Fforwm Craffu (cyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu) ar 25 Gorffennaf 2022. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn ar 23 Mehefin 2022 i ychwanegu rôl craffu materion corfforaethol i gylch gorchwyl y pwyllgor yma, teimlwyd yr angen i roi cyfle i weithredu'r trefniant. 'Roedd bwriad i adolygu'r trefniant ymhen 18 mis. Pe byddai'n dod yn amlwg nad oedd y trefniant yn gweithio yn gynt na'r 18 mis yna byddai modd adolygu ynghynt ond bod angen rhoi cyfle i weithredu ac adolygu'n amserol.
10. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.
11. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:**
 - (i) ystyried amseriad craffu'r eitemau a amlygwyd yn yr adroddiad;
 - (ii) fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2022/23.

Yn seiliedig ar argymhellion y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn yr adroddiad:

BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2022/23

| |
|--|
| 20/10/2022 |
| <ul style="list-style-type: none"> • Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Addysg Cyd-Berthynas a Rhywioldeb • Cwricwlwm newydd i Gymru • Ffordd Gwynedd |
| 08/12/2022 |
| <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau Blynnyddol Addysg a GwE • Cinio ysgol am ddim • Cadw'r Budd yn Lleol |
| 02/02/2023 |
| <ul style="list-style-type: none"> • Addysg Ôl-16 • Strategaeth Addysg • Cynllun Economi Gwynedd • Egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy (Cynllun Economi Ymweld) |
| 23/03/2023 |
| <ul style="list-style-type: none"> • Addysg a'r Gymraeg: Gweledigaeth Newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt • Cynllunio'r Gweithlu • Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (dealltwriaeth o graffu o leiaf un waith y flwyddyn) – <i>wedi ei ychwanegu ers y gweithdy</i> |

Eitemau i'w rhaglennu yn 2023/24:

Fframwaith Adfywio

Balansau Ysgolion Gwynedd